



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Ansawdd Aer: Ymgynghoriad ar y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol ddrafft

Ionawr 2019



(h) Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) neu anfonwch neges e-bost i [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

[cleanair.consultations@defra.gsi.gov.uk](mailto:cleanair.consultations@defra.gsi.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

## Cynnwys

1. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn .....	1
2. Cyd-destun y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol a chrynodeb .....	2
2.1 Cefndir.....	2
2.2 Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y DU .....	3
3. Nod yr ymgynghoriad hwn .....	4
4. Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	4
Gwybodaeth gyffredinol a sut i ymateb .....	7
Ar ddiwedd yr ymgynghoriad .....	7

# 1. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

## 1.1. Trosolwg

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn llwyr ymrwymedig i wella ansawdd aer a sicrhau'r manteision cysylltiedig ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol. Nid yw llygredd aer yn cydnabod ffiniau cenedlaethol na rhyngwladol. Felly, gall allyriadau a gynhyrchir mewn un wlad gael effaith ar ansawdd aer ledled gweddill y DU. Dyna pam mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydweithio i ddeall ar lefel y DU pa gamau gweithredu sydd eu hangen i wella ansawdd aer ac ansawdd bywyd ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cynnal ymgynghoriad penodol ar Raglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y DU. Mae ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol a'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 1 Ebrill 2019. Yn amodol ar y trafodaethau ynghylch Gadael yr UE bydd yn rhaid cyflwyno'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol i Gomisiwn yr UE erbyn 1 Ebrill 2019. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddi gael ei chyhoeddi.

Gan fod ansawdd aer yn fater datganoledig a bod gan y gweinyddiaethau datganoledig eu polisiau annibynnol eu hunain, mae angen i'r DU gydweithio â phob gweinyddiaeth er mwyn cyflawni ei hamcanion statudol. Mae'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol yn ddogfen i'r DU gyfan ac mae'n nodi'r mesurau arfaethedig a'r gwaith dadansoddi technegol sy'n dangos sut y gellir cyflawni'r ymrwymadau i leihau allyriadau erbyn 2020 a 2030 ar gyfer pum llygrydd niweidiol (ocsidau nitrogen, amonia, cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan, deunydd gronynnol a sylffwr deuocsid) ym mhob rhan o'r DU.

Bydd yr ymgynghoriad yn para am 4 wythnos, gan ddod i ben ar 14 Mawrth 2019. Mae amseriadau'r ymgynghoriad yn dibynnu ar gyhoeddi ein Strategaeth Aer Glân (a ddigwyddodd ym mis Ionawr) a chyhoeddi'r rhaglen ei hun cyn y dyddiad cau heriol ar 1 Ebrill 2019.

## 2. Cyd-destun y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol a chrynodeb

### 2.1 Cefndir

Llygredd aer yw'r brif risg amgylcheddol i iechyd pobl yn y DU. Gall amlygiad i lygryddion niweidiol megis nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol mân amharu ar iechyd, yn enwedig ymhlith grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed. Gall leihau disgwyliad oes drwy gynyddu risgiau o farwolaeth neu forbidrwydd sy'n gysylltiedig â chlefyd y galon a strôc, clefydau anadlol, canser yr ysgyfaint a chyflyrau eraill.

Mae'r DU yn barti yng Nghonfensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pellgyrhaeddol (1979) a Phrotocol gwreiddiol Gothenburg (1999) i'r Confensiwn sy'n pennu terfynau uchaf allyriadau cenedlaethol ar gyfer pedwar llygrydd aer. Cytunwyd ar ddiwygiad 2012 i Brotocol Gothenburg 1999 ymhlith Partïon er mwyn gwella'r diogelwch a roddir i iechyd pobl a'r amgylchedd ymhellach ac mae'n pennu ymrwymadau lleihau allyriadau cenedlaethol newydd ar gyfer pum llygrydd aer, sef: ocsidau nitrogen ( $\text{NO}_x$ ), cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs), sylffwr deuocsid ( $\text{SO}_2$ ), amonia ( $\text{NH}_3$ ) a deunydd gronynnol mân ( $\text{PM}_{2.5}$ ), i'w cyflawni erbyn 2020 a thu hwnt, a diweddarau gwerthoedd terfynau allyriadau llygryddion aer yn y tarddiad.

Daeth Cyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol ddiwygiedig (2016/2284/EU) i rym ar 31 Rhagfyr 2016 sy'n rhoi'r ymrwymadau lleihau allyriadau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar waith o dan y fersiwn ddiwygiedig o Brotocol Gothenburg. O dan y Gyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol newydd (Cyfarwyddeb 2001/81/EC), sy'n disodli deddfwriaeth gynharach, mae'n ofynnol lleihau allyriadau anthropogenig pum llygrydd aer niweidiol yn y DU yn gyffredinol: o'u cymharu â'r lefelau yn 2005. Mae angen cyflawni'r ymrwymadau lleihau allyriadau cenedlaethol hyn mewn dau gam, rhwng 2020 a 2029, yn unol ag ymrwymadau a bennwyd gan Brotocol diwygiedig Gothenburg, gyda lefelau llymach i'w cyflawni o 2030 ymlaen er mwyn haneru effeithiau llygredd aer ar iechyd o gymharu â 2005. Mae hefyd yn sicrhau y bydd terfynau uchaf allyriadau ar gyfer 2010 a bennwyd yn y gyfarwyddeb gynharach yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer Aelod-wladwriaethau tan ddiwedd 2019.

Ar 14 Ionawr eleni cyhoeddodd Llywodraeth y DU Strategaeth Aer Glân sy'n amlinellu'r camau sydd i'w cymryd yn Lloegr (a ledled y DU lle mae polisïau wedi'u cadw'n ôl e.e. strategaeth 'Road to Zero' yr Adran Drafnidiaeth) er mwyn cyflawni'r ymrwymadau lleihau allyriadau. Roedd y Strategaeth Aer Glân yn cynnwys y nod o haneru nifer y bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n mynd y tu hwnt i derfynau canllaw Sefydliad Iechyd y Byd, a thros dargedau'r UE. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi canmol y Strategaeth Aer Glân fel esiampol i'w dilyn gan weddill y byd.

Mae gan y Gweinyddiaethau Datganoledig eu polisiâu traws-sector uchelgeisiol, eang eu hunain i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer, yr oedd nifer ohonynt wedi'u nodi yn y Strategaeth Aer Glân.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Gynllun Aer Glân eleni a fydd yn nodi'r polisiâu hyn ochr yn ochr â pholisiâu eraill i wella ansawdd aer a chanlyniadau o ran iechyd y cyhoedd a chanlyniadau amgylcheddol cysylltiedig ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth yr Alban hefyd yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r strategaeth bresennol 'Clean Air for Scotland' yn ddiweddarach eleni.

Ar hyn o bryd mae'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon wrthi'n paratoi Strategaeth Ansawdd Aer, y mae'n gobeithio ymgynghori arni yn ddiweddarach yn 2019.

## 2.2 Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y DU

Mae'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol yn ddogfen dechnegol sy'n asesu potensial lleihau allyriadau (lleihad) amrywiaeth o fesurau sydd i'w defnyddio ledled y DU. Gwneir amcangyfrifon o'r mesurau hyn ar gyfer pob llygrydd o ran lleihau allyriadau. Mae gan bob un o weinyddiaethau'r DU ei hymrwymiaidau lleihau allyriadau presennol ac arfaethedig ei hun ac ystyriwyd hyn wrth lunio'r ddogfen a gwneud y gwaith dadansoddi.

Yn achos Lloegr, y mesurau a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol yw'r rhai a nodir yn y Strategaeth Aer Glân (ac felly cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn arnynt ym mis Mai 2018). Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi amlinellu eu polisiâu presennol ac arfaethedig wrth ddatblygu'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol. Disgrifiwyd nifer o'r polisiâu hyn, sydd â chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesurau yn y Strategaeth Aer Glân, yn y Strategaeth Aer Glân. Mae Defra wedi defnyddio mesurau'r Strategaeth Aer Glân er mwyn helpu i baratoi Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol gychwynnol, y byddant yn ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2019. Unwaith y bydd y gyfres lawn o fesurau ym mhob Gweinyddiaeth Ddatganoledig wedi'i hystyried yn llawn, caiff y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol ei diwygio a'i hailgyhoeddi yn 2020.

Dengys Tabl 2.8.1(tudalennau 51-52) o'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y gall y DU gyflawni ymrwymiaidau lleihau allyriadau 2020 a 2030 os caiff mesurau'r Strategaeth Aer Glân eu rhoi ar waith yn Lloegr yn unig ac, felly, mae'n anochel y bydd polisiâu'r Gweinyddiaethau Datganoledig a'r diwygiadau i'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol yn cynyddu lefelau cydymffurfiaeth ac yn lleihau allyriadau ymhellach.□

Yn unol â pholisi safonol, rydym yn cyflwyno'r meysydd adrodd gorfodol yn y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol (h.y. ddim yn gynnwys dewisol); mae'r meysydd hyn wedi'u huwchleuo mewn glas yn nogfen y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol.

## 3. Nod yr ymgynghoriad hwn

3.1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol ddrafft a'r defnydd o'r amcangyfrifon o'r lleihad mewn llygredd aer sy'n gysylltiedig â'r mesurau polisi ac mae hefyd yn gofyn am unrhyw waith dadansoddi neu dystiolaeth ychwanegol y gellid ei defnyddio.

3.2. Mae'r ymgynghoriad yn nodi wyth cwestiwn, y mae'r cyntaf ohonynt yn holi am yr amcangyfrifon o'r lleihad mewn llygredd aer sy'n gysylltiedig â'r mesurau polisi. Mae'r saith cwestiwn nesaf yn ymwneud yn benodol â'r pecyn o fesurau sy'n gysylltiedig â diwydiannau penodol. Mae cyfle hefyd i ddarparu tystiolaeth feintiol ategol. Nod yr adran hon yw deall a oes tystiolaeth ychwanegol am ostyngiadau mewn allyriadau y gallwn ei hymgorffori yn y Rhaglen Rheoli Ansawdd Aer Genedlaethol.

3.3 Mae a wnelo cwestiwn pellach â datblygu mesurau y gallai Llywodraeth y DU neu'r gweinyddiaethau datganoledig eu hymgorffori yn y dyfodol er mwyn helpu i gyflawni ymrwymiad lleihau allyriadau'r DU yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## 4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. A ydych yn cytuno â'r amcangyfrifon o'r lleihad mewn llygredd aer sy'n gysylltiedig â'r mesurau polisi yn y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol?

- Cytuno
- Niwtral
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

*Os mai 'Cytuno' oedd eich ateb, ewch i gwestiwn 8.*

2. Yn y pecyn o fesurau sy'n ymwneud â **thrafnidiaeth ffyrdd** a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amcangyfrifon a ddarparwyd ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion isod?

Dim ond blychau'r llygryddion lle mae gennych bryderon y dylech eu llenwi.

Esboniwch eich pryderon ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer pob llygrydd.

Defnyddiwch y nodwedd atodi dogfen i lanlwytho unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich pryderon. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi eich prif bryderon a'r prif gasgliadau o'ch tystiolaeth yn y blwch testun.

- Ocsidau nitrogen (NOx)
- Sylffwr deuocsid (SO2)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Deunydd gronynnol mân (PM2.5)

- Amonia (NH<sub>3</sub>)

3. Yn y pecyn o fesurau sy'n ymwneud â morgludiant a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amcangyfrifon a ddarparwyd ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion isod?

Dim ond blychau'r llygryddion lle mae gennych bryderon y dylech eu llenwi.

Esboniwch eich pryderon ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer pob llygrydd.

Defnyddiwch y nodwedd atodi dogfen i lanlwytho unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich pryderon. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi eich prif bryderon a'r prif gasgliadau o'ch tystiolaeth yn y blwch testun.

- Ocsidau nitrogen (NO<sub>x</sub>)
- Sylffwr deuocsid (SO<sub>2</sub>)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Deunydd gronynnol mân (PM<sub>2.5</sub>)
- Amonia (NH<sub>3</sub>)

4. Yn y pecyn o fesurau sy'n ymwneud â **thrafnidiaeth arall** a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amcangyfrifon a ddarparwyd ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion isod?

Dim ond blychau'r llygryddion lle mae gennych bryderon y dylech eu llenwi.

Esboniwch eich pryderon ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer pob llygrydd.

Defnyddiwch y nodwedd atodi dogfen i lanlwytho unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich pryderon. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi eich prif bryderon a'r prif gasgliadau o'ch tystiolaeth yn y blwch testun.

- Ocsidau nitrogen (NO<sub>x</sub>)
- Sylffwr deuocsid (SO<sub>2</sub>)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Deunydd gronynnol mân (PM<sub>2.5</sub>)
- Amonia (NH<sub>3</sub>)

5. Yn y pecyn o fesurau **domestig** a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amcangyfrifon a ddarparwyd ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion isod?

Dim ond blychau'r llygryddion lle mae gennych bryderon y dylech eu llenwi.

Esboniwch eich pryderon ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer pob llygrydd.

Defnyddiwch y nodwedd atodi dogfen i lanlwytho unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich pryderon. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi eich prif bryderon a'r prif gasgliadau o'ch tystiolaeth yn y blwch testun.



- Ocsidau nitrogen (NOx)
- Sylffwr deuocsid (SO2)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Deunydd gronynnol mân (PM2.5)
- Amonia (NH3)

6. Yn y pecyn o fesurau sy'n ymwneud ag **amaethyddiaeth** a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amcangyfrifon a ddarparwyd ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion isod?

Dim ond blychau'r llygryddion lle mae gennych bryderon y dylech eu llenwi.

Esboniwch eich pryderon ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer pob llygrydd.

Defnyddiwch y nodwedd atodi dogfen i lanlwytho unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich pryderon. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi eich prif bryderon a'r prif gasgliadau o'ch tystiolaeth yn y blwch testun.

- Ocsidau nitrogen (NOx)
- Sylffwr deuocsid (SO2)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Deunydd gronynnol mân (PM2.5)
- Amonia (NH3)

7. Yn y pecyn o fesurau sy'n ymwneud â **diwydiant** a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amcangyfrifon a ddarparwyd ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion isod?

Dim ond blychau'r llygryddion lle mae gennych bryderon y dylech eu llenwi.

Esboniwch eich pryderon ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer pob llygrydd.

Defnyddiwch y nodwedd atodi dogfen i lanlwytho unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich pryderon. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi eich prif bryderon a'r prif gasgliadau o'ch tystiolaeth yn y blwch testun.

- Ocsidau nitrogen (NOx)
- Sylffwr deuocsid (SO2)
- Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs)
- Deunydd gronynnol mân (PM2.5)
- Amonia (NH3)

8. Ar ôl cyhoeddi'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol gychwynnol, bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i ddatblygu ein mesurau polisi a'n dull gweithredu. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn fersiynau dilynol o'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol a gaiff eu cyhoeddi maes o law. Rhowch wybod i ni am unrhyw fesurau eraill y dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eu hystyried, yn eich barn chi, er mwyn helpu i gyflawni ymrwymadau lleihau allyriadau'r DU yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dylai cynigion fod yn seiliedig ar

dystiolaeth, a dylent nodi'r costau a'r manteision tebygol. Dewiswch wlad o'r rhestr isod a defnyddiwch y blwch testun a'r botwm lanlwytho ffeiliau i gyflwyno eich adborth.

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru

Ychwanegwch destun yma.

## Gwybodaeth gyffredinol a sut i ymateb

**Y dyddiad cau ar gyfer ymateb:** Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 14 Mawrth 2019.

**Sut i ymateb:** Dylech ymateb drwy citizen space – mae'r ymgynghoriad ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://consult.defra.gov.uk/environmental-quality/napcp-consultation/>

Gallwch hefyd ymateb drwy'r post i:  
Draft NAPCP consultation  
Air Quality Team  
Department for Environment, Food & Rural Affairs,  
Seacole Building  
2 Marsham Street, London  
SW1P 4DF

Os hoffech ymateb drwy e-bost, cysylltwch â ni yn gyntaf a byddwn yn anfon templed ymateb atoch er mwyn i chi ei gwblhau a'i gyflwyno wedyn drwy e-bost i:  
[cleanair.consultations@defra.gsi.gov.uk](mailto:cleanair.consultations@defra.gsi.gov.uk)

### Copïau ychwanegol:

Gallwch wneud copïau o'r ddogfen hon heb geisio caniatâd.  
Gallwn ddarparu fersiynau eraill o'r ddogfen megis Braille neu brint bras ar gais.  
Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod i ofyn am fersiynau amgen.

Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar resymeg a thystiolaeth, yn hytrach nag ymatebion sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

## Ar ddiwedd yr ymgynghoriad

Pan ddaw'r ymgynghoriad hwn i ben, byddwn yn cadw copïau yn ddiogel. Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gopi o'r ymatebion o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Os nad ydych am i'ch ymateb – gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall – fod ar gael yn gyhoeddus, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Noder, os bydd eich cyfrifiadur yn

cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, na fyddwn yn ystyried hwnnw yn gais am gyfrinachedd.

Esboniwch pam rydych am gadw'r manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd unrhyw un yn gofyn am y wybodaeth hon o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Ond, yn ôl y gyfraith, ni allwn addo y gallwn gadw'r manylion hynny'n gyfrinachol bob amser.

Byddwn yn crynhoi pob ymateb ac yn rhoi'r crynodeb hwn ar ein gwefan yn [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd y crynodeb hwn yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau sydd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Rhowch 24 awr o rybudd i ni os hoffech weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r crynodebau. Codir tâl am lungopïo a phostio.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylech eu hanfon at:

Defra Consultation Co-ordinator,

Area 1C Nobel House 17 Smith Square London SW1P 3JR

neu e-bostiwch: [consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk)